Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**16 Hydref 2025**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Sefyllfa plismona: Adroddiad ar asesiad blynyddol o blismona yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2024-25**

Rwyf wedi darllen yr asesiad diweddaraf gyda diddordeb ac wedi amlinellu fy ystyriaethau isod o dan y prif themâu a amlygwyd yn yr adroddiad.

## Gwneud cymunedau’n fwy diogel a magu hyder

Rwy’n cytuno â sylwadau’r adroddiad mai timau plismona bro yw’r prif gysylltiadau rhwng heddluoedd a’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae cenhadaeth Strydoedd Saffach Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd lleihau troseddu a gwella mynediad at gyfiawnder.

Dylai dull mwy effeithiol o fynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol helpu i wella canfyddiadau’r cyhoedd ynghylch diogelwch cymunedol.

Dynododd Heddlu Dyfed-Powys 10 ardal yn ardaloedd problemus a chafodd gyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref, trwy fy swyddfa i, ar gyfer cyfres o batrolau gweladwy iawn. Cwblhaodd yr heddlu waith yn mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol dros yr haf drwy’r patrolau hyn mewn ardaloedd problemus yn unol â rhaglen Strydoedd Saffach a gwelwyd canlyniadau boddhaol. Mae cynlluniau bellach ar waith ar gyfer gweithgaredd mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol y flwyddyn nesaf ac mae adborth ar y cynnydd a wnaed wedi’i ddarparu i’r Swyddfa Gartref.

Dylai canolbwyntio ar blismona bro helpu heddluoedd i fod yn fwy ymatebol i bryderon y gymuned.

Cefais fy nghalonogi’n fawr yn 2024 pan benderfynodd Heddlu Dyfed-Powys adolygu eu model plismona bro. Fe wnaethon nhw ganfod bod y timau plismona bro yn darparu gwasanaeth cyhoeddus rhagorol, ond roedden nhw hefyd yn cydnabod bod llawer o amser yn cael ei dreulio yn canolbwyntio ar y symptomau, yn hytrach na mynd i’r afael â materion wrth wraidd y problemau. Penderfynwyd newid y dull yn ôl i hanfodion atal er mwyn cael gwared ar rai o’r rhwystrau. Er nad yw atal yn gysyniad newydd, mae’n caniatáu i’r heddlu fod yn rhan o ddull system gyfan ehangach, gan weithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid a chymunedau. Lansiwyd strategaeth atal ar gyfer 2024-2028 ac ailenwyd y tîm plismona bro yn dîm plismona ac atal bro i helpu’r heddlu i ymfalchïo yn y ffocws newydd sydd ar atal a chydweithio mewn partneriaeth.

Mae’r ffaith bod y Swyddfa Gartref wedi dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer Gwarant Plismona Bro wedi galluogi Heddlu Dyfed-Powys i dyfu eu timau plismona

ac atal bro. Ochr yn ochr â hyn, rwyf wedi dyrannu cyllid ychwanegol i alluogi recriwtio mwy o staff heddlu er mwyn rhyddhau hyd yn oed mwy o swyddogion i'r rheng flaen. Mae'r gwaith o recriwtio a gwneud newidiadau i'r timau hyn yn mynd rhagddo a bydd fy swyddfa yn ei fonitro yn y misoedd nesaf.

Mae dal angen i heddluoedd wella pa mor gyson y maent yn cyfathrebu â'u cymunedau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi lansio ap negeseuo newydd i anfon gwybodaeth am blismona, troseddu, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn uniongyrchol i fewnflwch e-bost y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ardal yr heddlu.

Wedi'i lansio ar 22 Medi 2025, mae'r ap yn cynnig ffordd newydd i unigolion o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys gael yr wybodaeth ddiweddaraf a dweud eu dweud am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal gan ddefnyddio'r system negeseuo ryngweithiol am ddim.

Roeddwn i'n falch o gael gwybod bod dros 1,000 o unigolion wedi cofrestru i ddefnyddio'r ap hyd yn hyn, gyda 600 yn dewis cael negeseuon gan y tîm cyfathrebu ac ymgysylltu yn fy swyddfa.

## Prif weithgarwch a chanfyddiadau'r arolygiad

Trosolwg o ganfyddiadau'r arolygiad ynghylch effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a chyfreithlondeb yr heddlu 2023-25

Yn unol â'm gofynion statudol i ymateb i bob adroddiad a gyhoeddir gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), rwy'n gwahodd y Prif Gwnstabl i wneud sylwadau am adroddiadau drwy broses ffurfiol. Mae hyn yn cael ei hwyluso trwy gyfarfodydd fy Mwrdd Plismona. Yna mae fy swyddfa'n defnyddio'r ymatebion hyn wedyn i gynllunio gweithgarwch craffu a sicrwydd yn y dyfodol i gefnogi a monitro gwelliannau. Rwyf hefyd yn cael adroddiadau cyfnodol yn manylu ar yr holl argymhellion agored a meysydd i'w gwella, sy'n caniatáu i mi ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am y cynnydd a wnaed.

Rwyf wedi cael sicrwydd bod Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r canfyddiadau a adroddwyd a'r meysydd i'w gwella a amlygwyd o arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu HMICFRS yn 2023-25.

Mae'r heddlu wedi gwella sut mae'n cofnodi troseddau yn barhaus ac mae fy nghyfarfodydd Bwrdd Perfformiad Strategol yn craffu'n fanwl ar gywirdeb data troseddau. Mae'r heddlu'n gyson yn cofnodi pob trosedd gyda chywirdeb o dros 90%.

Mae gwelliannau o ran prosesau, adrodd, a chofnodi stopio a chwilio hefyd wedi’u rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys defnydd mewnol o ddangosfyrddau Power BI newydd a phanel craffu newydd sy’n monitro’r defnydd o stopio a chwilio a’r defnydd o rym ar draws ardal yr heddlu. Mae’r panel yn fforwm tryloyw ac annibynnol sy’n gweithredu ar ran cymunedau ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae’r heddlu wedi gwneud newidiadau sylweddol i fynd i’r afael â meysydd i’w gwella mewn perthynas ag ymateb i’r cyhoedd. Mae hyn yn benodol yn ymwneud â chyfraddau rhoi’r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys, yn ogystal â’r gwelliant sydd ei angen o ran deall risg a galw yn yr ystafell reoli, ac effeithiolrwydd yr ymateb i ddigwyddiadau. Mae’r heddlu wedi cyflwyno cyfarfod rheoli dyddiol newydd sy’n canolbwyntio ar nifer y galwadau a pherchnogaeth digwyddiadau mewn graddau ymateb is. Mae hyn wedi lleihau nifer y digwyddiadau mewn ciwiau heb eu monitro. Yn ogystal, mae prosesau newydd ar gyfer cofnodi troseddau a adroddwyd amdanynt ar gam cynharach wedi lleihau nifer y digwyddiadau sy’n aros am ymateb.

Mae cyllid ychwanegol gan fy swyddfa wedi galluogi cyflwyno system gyswllt ffôn a radio newydd, mwy o adnoddau, a model gweithredu newydd o fewn Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu. Mae hyn wedi galluogi’r heddlu i leihau cyfraddau rhoi gorau i alwadau 101 yn sylweddol dros y 12 mis diwethaf, ac mae bellach yn cyflawni targedau HMICFRS yn gyson. Gwnaed cynnydd cadarnhaol yn y naill a’r llall o’r meysydd hyn i’w gwella, ac mae hyn wedi arwain at eu cau yn dilyn gwiriad gan HMICFRS.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos y ffocws clir a’r gwelliant wrth gyflawni deilliannau priodol i ddioddefwyr troseddau. Rwy’n falch o fod wedi cael fy nghynnwys yng nghynllun yr heddlu ar gyfer gwelliant cynaliadwy yn y maes hwn. Mae’r maes hwn i’w wella hefyd wedi’i gyflawni a’i gau yn dilyn gwiriad gan HMICFRS.

Mae gwiriad gan HMICFRS hefyd wedi golygu bod pob un o’r meysydd i’w gwella o ran diogelu unigolion bregus wedi’u cau. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys asesu pob digwyddiad o gam-drin domestig, stelcio, ac aflonyddu, sydd bellach yn cynnwys cynnal adolygiadau eilaidd yn hytrach na dim ond adolygu achosion risg uchel. Hefyd, mae’r heddlu wedi darparu hyfforddiant i swyddogion a staff mewn rolau arbenigol ym maes bregusrwydd. Mae’r heddlu hefyd wedi cyflwyno monitro gwell o lywodraethu a pherfformiad i amddiffyn unigolion bregus yn effeithiol.

O ran arweinyddiaeth a defnyddio adnoddau yn effeithiol, mae gan yr heddlu broses gynllunio strategol a sicrwydd gynhwysfawr, sy’n dwyn ynghyd ofynion datganiad rheoli’r heddlu, y broses asesu strategol, dadansoddiad o alw, cynllunio’r gweithlu, y strategaeth gyfalaf, a’r cynllun ariannol tymor canolig. Mae’r broses gynllunio strategol a sicrwydd wedi’i chynllunio i gefnogi buddsoddiadau a phenderfyniadau’r heddlu drwy ddarparu modelau gweithredu newydd, yn ogystal â modelau sydd eisoes yn bodoli, i ddangos lle gellir cyflawni mwy o effeithlonrwydd ac mae wedi’i thanategu gan dryloywder ac atebolrwydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

<u>Roedd ymateb yr heddlu i helbulon haf 2024 yn effeithiol i raddau helaeth.</u>

Mae gan Heddlu De Cymru bellach adran Gudd-wybodaeth y Drefn Gyhoeddus ranbarthol bwrpasol sy'n casglu ac yn asesu gwybodaeth a chynnwys ar-lein. Mae'n casglu cudd-wybodaeth sy'n berthnasol i ardal ein heddlu. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys broses mobileiddio gadarn ar gyfer adnoddau'r drefn gyhoeddus sy'n cael ei phrofi a'i defnyddio'n rheolaidd. Drwy bresenoldeb aelodau o'm swyddfa mewn cyfarfodydd mewnol y bwrdd, ac adroddiadau a gafwyd gan fy Mwrdd Plismona, rwyf wedi cael sicrwydd bod gan yr heddlu ddigon o adnoddau i gyflawni eu hymrwymiadau o dan y Gofyniad Plismona Strategol.

<u>Mae Ymgyrch Soteria eisoes yn gwneud gwahaniaeth i ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill.</u>

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i fabwysiadu meddylfryd a dull arloesol Ymgyrch Soteria ac yn ddiweddar mae wedi ail-gysylltu â'r Athro Betsy Stanko OBE ynghylch y cynnydd a wnaed. Mae'r heddlu wedi sefydlu tîm canolog i oruchwylio atgyfeiriadau trydydd partïon, gan gynnwys swyddogion cyswllt dioddefwyr sy'n cynnal ymholiadau dilynol. Mae'r heddlu wedi profi cynnydd mewn atgyfeiriadau a chudd-wybodaeth gan drydydd partïon a fyddai wedi bod yn llai tebygol heb fethodoleg Ymgyrch Soteria. Mae'r cynnydd hwn wedi darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer meithrin cydberthnasau, sicrhau tystiolaeth, a dod â throseddwyr gerbron y llys. Yn gysylltiedig â hyn, mae Uned Reoli Sylfaenol Sir Gaerfyrddin wedi cynnal cynllun peilot llwyddiannus o Dîm penodol Ymchwilio i Dreisio. Mae'r tîm hwn hefyd yn cynnwys swyddogion cyswllt dioddefwyr a swyddogion sy'n tarfu ar ymddygiad a allai fod yn droseddol. Mae'r adborth gwerthuso ar gyfer y cynllun peilot o Dîm Ymchwilio i Dreisio wedi bod yn gadarnhaol iawn a phrofir cynnydd yn nifer y rhyngweithiadau cynnar â Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwelliannau mewn cyfraddau cyhuddo, ynghyd â chyfres o ymatebion adborth cadarnhaol gan ddioddefwyr ac asiantaethau partner ynghylch y dull cyson sydd ar waith bellach. Rwyf wedi cael gwybod bod bwriad strategol i'r heddlu gyflwyno swyddogion cyswllt dioddefwyr ar gyfer ymchwiliadau i dreisio ac ymosodiadau rhywiol difrifol ar draws yr holl unedau rheoli sylfaenol a fydd yn gwella gwasanaethau i ddioddefwyr ymhellach ac yn gwella deilliannau o ran cyfiawnder.

<u>Mae amrywiadau yn y trefniadau lleol a rhanbarthol sydd ar waith i ymateb i droseddu trefnedig difrifol.</u>

Ym mis Medi 2025, cymerodd Heddlu Dyfed-Powys ran yn archwiliad troseddu trefnedig difrifol HMICFRS. Disgwylir adborth ffurfiol ar hyn, fodd bynnag mae hunanasesiad yr heddlu ei hun yn amlinellu sefyllfa sefydlog. Mae hyn yn cynnwys

ymateb rhagweithiol a chyfunol i fynd i'r afael â grwpiau troseddau trefnedig a'r bygythiadau cysylltiedig. Mae strwythurau cudd-wybodaeth a gosod tasgau'r heddlu yn caniatáu llywodraethu a goruchwyliaeth dda o droseddu trefnedig difrifol. Mae yn hyn arwain at ddefnyddio timau ac anoddau arbenigol yn effeithiol. Mae rhai gwelliannau y gellir eu gwneud o ran cyfuno platfformau sy'n dal gwybodaeth berthnasol, ynghyd â chyflwyno system friffio well a ddisgwylir yng ngwanwyn 2026. Bydd hyn o gymorth wrth resymoli gwybodaeth a bydd yn sicrhau bod gwybodaeth allweddol i staff a rheolwyr fel ei gilydd yn fwy amlwg. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod y dysgu sydd wedi dod o ddatblygu cynlluniau 'Atal, Dilyn, Diogelu a Pharatoi' (neu 4P Prevent, Pursue, Protect a Prepare yn Saesneg) dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig y gofyniad i weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid statudol ar lefel leol a rhanbarthol. Caiff hyn ei rannu'n rheolaidd â Swyddogion Datrysiad Lleol presennol a newydd.

<u>Mae arolygiadau amddiffyn plant a'r ddalfa wedi arwain at welliannau.</u>

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cael adborth cadarnhaol gan y ddau arolygiad diweddaraf ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant ym Mhowys a Sir Benfro. Rwy'n deall mai'r dysgu allweddol y mae'r heddlu'n mynd i'r afael ag ef ar hyn o bryd yw datblygu dull trafod dyddiol 'brysbennu integredig partneriaethau' ymhellach gyda phartneriaid statudol. Mae'r fethodoleg hon wedi'i hen sefydlu ar draws disgyblaethau eraill, megis cynhadledd amlasiantaeth asesu risg a threfniadaeth amlasiantaethol er diogelu'r cyhoedd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi sicrhau cyllid ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda a chynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro ar gyfer prosiect LINC. Mae'r prosiect hwn i sefydlu platfform a rennir yn bennaf i olrhain gwybodaeth am blant sydd mewn perygl o niwed. Mae'r feddalwedd wedi'i datblygu yn sylweddol ac mae partneriaeth wedi'i ffurfio â Phrifysgol Abertawe. Mae'r platfform a rennir yn cael ei gynllunio i ddarparu baneri i weithwyr proffesiynol er mwyn cynhyrchu ymyriadau cynharach a mwy rhagweithiol er mwyn lleihau niwed. Mae hyfforddiant amddiffyn plant wedi gwella ar gyfer staff allweddol ac mae chwilfrydedd proffesiynol wedi'i gynnwys yn thematig ar draws pob mewnbwn hyfforddiant ar fregusrwydd i staff a swyddogion.

Yn dilyn cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei dynnu yn ôl ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, fe wnes i gadarnhau fy ymrwymiad i gynnal a chryfhau'r gwasanaeth hanfodol hwn yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, drwy ddyrannu cyllid o'm swyddfa i sicrhau y gallai'r rhaglen barhau. Mae'r heddlu wedi cadw swyddogion heddlu profiadol yn swyddi ditectif gwnstabl diogelu rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant a chwnstabl y tîm troseddau ieuenctid. Mae'r rolau hyn yn gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid ar draws addysg, iechyd, a chyfiawnder ieuenctid. Gyda fy nghefnogaeth i, mae prosiect ar y gweill i wella'r Rhaglen Ysgolion ymhellach fel ei bod yn cynnwys darpariaeth i oedolion ifanc a darpariaeth gymunedol ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi'n ddiweddar fod cronfa o gyllid ar gael i wella'r ddarpariaeth i bobl ifanc yn y flwyddyn ariannol hon.

Ym mis Mai eleni, darparais gyllid ar gyfer cynllun peilot mewn perthynas â'r ddalfa yn ymwneud ag eiriolaeth i blant. Mae cynllun peilot hwn i fod i ddechrau gweithredu ym mis Hydref 2025. Mae hwn yn gyfle unigryw i unigolion hyfforddedig ymgysylltu â'r person ifanc, mynd at wraidd yr achos pam ei fod wedi troseddu a meithrin cydberthynas ac ymddiriedaeth. Darperir cymorth a chefnogaeth drwy gyfeirio atgyfeiriadau i atal unrhyw niwed, trawma, neu ymwneud â throseddu pellach yn y dyfodol. Bydd asesiadau'n cael eu cwblhau i nodi risgiau ac anghenion a fydd yn helpu i lunio cynllun gofal, a bydd gweithwyr yn aros gyda'r person ifanc drwy gydol ei amser yn y ddalfa.

**Gweithlu'r heddlu**

Mae lefelau uchel o ddiffyg profiad yn y gweithlu yn dal i fod yn her i heddluoedd.

Rwy'n cytuno'n llwyr â sylwadau'r adroddiad bod recriwtio swyddogion a staff ychwanegol yn ddatblygiad a groesawir yn fawr, ond mae'n cyflwyno heriau i heddluoedd yn y tymor byr. Mae hyn yn cael ei fonitro'n gyson gan Grŵp Prif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ac hysbysir unrhyw feysydd sy'n peri pryder i mi yn ystod fy nghyfarfodydd Bwrdd Plismona.

Mae staff yr heddlu yn hanfodol o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heddluoedd.

Ochr yn ochr â'r heddlu, byddwn yn croesawu mwy o hyblygrwydd wrth ddiffinio cymysgedd y gweithlu a fydd yn gwasanaethu ein cymunedau orau, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio rhywfaint o'r cynnydd mewn adnoddau plismona bro ar gyfer staff yr heddlu.

Yn aml nid oes digon o ymgeiswyr ar gyfer swyddi prif gwnstabl.

Yn ddiweddar, cynhaliais broses recriwtio gadarn a thryloyw yn cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i benodi Prif Gwnstabl newydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Denodd y broses hon bum ymgeisydd, pedwar ohonynt o ardaloedd heddlu eraill.

**Diwygio'r heddlu**

Nid oes digon o gyfarwyddyd canolog a goruchwyliaeth o berfformiad.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Rhaid i unrhyw waith i safoni perfformiad drwy fframwaith cenedlaethol a chymariaethau fod yn ymwybodol o'r cyd-destun lleol/Cymreig. Dylai fod mesurau perfformiad effeithiol ar draws y system sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal, gyda'r nod o leihau'r galw ar blismona. Rhaid i'r mesurau hyn gyfrannu at newid system gyfan ar gyfer y cyhoedd a chydnabod rhyngddibyniaethau a chymhlethdod darparu gwasanaethau, sy'n amrywio o ardal i ardal ac o wlad i wlad.

<u>Mae buddsoddi mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn hanfodol.</u>

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r datganiad uchod. Dylid mabwysiadu dull wedi'i gydlynu mwy canolog / rhanbarthol i ddileu gwneud pethau mewn 43 ffordd wahanol, sy'n wastraff amser, ymdrech, a chyllid. Mae'r cydweithio rhwng heddluoedd a sefydliadau academaidd yng Nghymru yn gam i'r cyfeiriad cywir i geisio harneisio a chydlynu arloesedd ar draws heddluoedd Cymru a thu hwnt. Mae'n hanfodol ein bod hefyd yn dysgu'n gyflym o'r hyn nad yw'n gweithio ac nad ydym yn ailadrodd y methiannau hyn ar draws sawl heddlu. Mae hyn yn gofyn am lywodraethu cryf i sicrhau y gellir canfod dull cyfannol o arloesi, a sicrhau y dysgir gwersi ac y cofnodir arferion gorau. Mae angen sefydlu fframweithiau caffael cenedlaethol yn gyflym fel y gall heddluoedd eraill fabwysiadu'r datrysiad mwyaf costeffeithiol yn gyflym.

Nodaf fod yr adroddiad yn sôn am sut mae gwyddoniaeth a thechnolegau newydd a rhai sy'n datblygu, yn cael eu defnyddio i ymdrin â throseddu, data, a dadansoddeg a seiberddiogelwch. Rwy'n cytuno bod awtomeiddio, ac yn benodol deallusrwydd artiffisial, yn gallu bod yn chwyldroadol ac yn debygol o ailddiffinio'r ffordd y mae plismona'n gweithio. Gall deallusrwydd artiffisial gynorthwyo'r rhan fwyaf o rolau i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol, gan leihau'r amser y mae'n cymryd i wneud rhai tasgau yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr elfen ddynol bob amser yn cael ei chynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau / sicrhau ansawdd. Mae angen mynd i'r afael â'r holl bryderon a nodwyd yn yr adroddiad ac mae angen uwchsgilio staff i ddeall yn iawn sut y dylid defnyddio'r dechnoleg hon a beth yw ei chyfyngiadau, gan gymryd gofal ynghylch diogelwch data'r heddluoedd.

<u>Cyllid yr heddlu</u>

Rwy'n cytuno â'r sylwadau yn yr adroddiad am gyllid yr heddlu. Byddwn yn ychwanegu at hyn fy mhryder ynghylch yr amserlenni tebygol mewn perthynas â cham dau'r Warant Plismona Bro a'r ddarpariaeth ariannol a'r setliadau cyffredinol ar gyfer 2026/27. Mae'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar allu heddluoedd i baratoi a chynllunio eu strategaeth gweithlu, eu dulliau, a'u cynlluniau ariannol tymor canolig. Mae hyn yn ymddangos yn ddiangen. Mae heddluoedd yn dod yn fwy dibynnol ar godi arian drwy praesept y dreth gyngor, yn enwedig yng Nghymru.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Rwy'n amharod i gynyddu hyn o flwyddyn i flwyddyn, gan fod cydbwysedd bregus rhwng mynd i'r afael â gofynion gweithredol i sicrhau diogelwch y cyhoedd, wrth sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr, a rheolaeth ariannol gadarn.
Mae'r oedi yn y cyhoeddiadau ynghylch diwygio'r heddlu hefyd yn golygu fod cynllunio ymlaen llaw yn heriol.

Rwy'n ddiolchgar bod yr adroddiad blynyddol hwn wedi'i gyhoeddi. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i wella'r gwasanaeth plismona ar gyfer trigolion ardal Dyfed-Powys.